# Blaenoriaethau etholiadol Coleg Brenhinol y Patholegwyr ar gyfer Cymru 2026

Mae Cyngor Rhanbarthol Cymru Coleg Brenhinol y Patholegwyr (RCPath) yn cynnwys aelodau arbenigol sy'n darparu arweinyddiaeth broffesiynol yng Nghymru ac yn cyfrannu at gynnal a datblygu gwasanaethau patholeg ac ansawdd y gofal y mae cleifion yn ei gael ar lefel genedlaethol a lefel y DU.

Mae patholegwyr yn feddygon ac yn wyddonwyr sy'n hanfodol i sicrhau diagnosis a thriniaeth er mwyn gwella gofal cleifion. Mae gwaith patholegwyr yn cefnogi cleifion drwy gydol eu hoes. Heb batholegwyr, ni allwn ddeall beth sy'n gwneud claf yn sâl.

Fel arbenigwyr mewn salwch ac afiechyd, maent yn defnyddio eu harbenigedd i gefnogi pob agwedd ar ofal iechyd, o ddehongli canlyniadau labordy i wneud diagnosis, i arwain triniaeth a chyfeirio gofal clinigol. Maent yn defnyddio technolegau genetig arloesol i drin cleifion sydd â chyflyrau sy'n bygwth bywyd. Maent yn chwarae rhan hollbwysig mewn addysg ac ymchwil, ac wrth ddyfeisio triniaethau newydd i frwydro yn erbyn heintiau a chlefydau fel canser a diabetes.

Yn y ddogfen flaenoriaethau hon rydym yn edrych ar yr heriau allweddol sy'n wynebu patholegwyr yng Nghymru ac yn galw ar y llywodraeth newydd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.



INVESTORS IN PEOPLE®
We invest in people Standard

## Buddsoddi yn y gweithlu er lles cleifion

- Mae gofal diogel ac effeithiol o ansawdd uchel i gleifion yn dibynnu ar gael y nifer iawn o staff iechyd medrus yn y mannau iawn. Nid yw niferoedd staff patholeg wedi codi yn unol â'r galw ac nid yw rhai gwasanaethau patholeg yn gallu recriwtio i swyddi gwag. Mae cyfrifiad gweithlu Coleg Brenhinol y Patholegwyr[1] yn adrodd nad yw 74% o staff patholeg yng Nghymru yn credu bod y lefelau staffio presennol yn ddigonol i sicrhau cynaliadwyedd hirdymor y gwasanaeth ac i ateb y galw clinigol cynyddol.
- Mae'r Coleg yn croesawu Adolygiad Annibynnol Perfformiad a Chynhyrchiant GIG Cymru[2] a'i argymhelliad y dylid dynodi patholeg yn wasanaeth bregus blaenoriaethol sydd angen atebion cenedlaethol a rhanbarthol brys.
- Mae angen buddsoddi mwy ar frys mewn gwasanaethau patholeg, yn enwedig mewn recriwtio a hyfforddi patholegwyr a gwyddonwyr. Mae angen mwy o leoedd hyfforddi wedi'u hariannu ar draws yr holl ddisgyblaethau patholeg i helpu i ateb y galw cynyddol am ddiagnosis canser.
- Mae angen buddsoddi ar frys mewn recriwtio staff patholeg, yn enwedig yn ardaloedd mwy gwledig Cymru, i liniaru oedi cyn cael diagnosis ac i gefnogi diagnosis amserol i gefnogi menter sgrinio canser, fel canser yr ysgyfaint, canser y fron a chanser y colon.
- Gall fod yn anodd recriwtio a chadw meddygon a nyrsys sy'n fodlon gweithio mewn ysbytai llai. Mae hyn yn golygu bod cleifion yn aros yn hirach am ddiagnosis ac yn aml yn gorfod teithio'n bell. Mae'n rhaid i Fyrddau Iechyd ddibynnu'n drymach ar staff asiantaeth drud i lenwi bylchau mewn rotas. Dylid cynnig cymhellion ariannol i hyfforddeion sy'n dewis gweithio mewn ardaloedd anodd o ran recriwtio.

## TG ar gyfer gwell gofal i gleifion

- Mae systemau TG cadarn a modern yn hanfodol ar gyfer gwaith Patholegwyr o ddydd i ddydd, gan gynnwys systemau Rheoli Gwybodaeth Labordy (LIMS) modern ac ymarferol, cymorth adnabod llais, cofnodion cleifion electronig a meddalwedd gweithio o bell ar gyfer timau amlddisgyblaethol. Mae'r Coleg yn croesawu cyflwyno System Rheoli Gwybodaeth Labordai (LIMS) Cymru Gyfan, a fydd yn galluogi rhannu data ar draws byrddau.

- Fodd bynnag, ar gyfer yr uwchraddiad LIMS nesaf, rhaid i dimau caffael sicrhau bod gan gwmnïau cyflenwi yr arbenigedd a'r profiad i ddarparu LIMS, rhag i staff y GIG orfod ysgwyddo'r baich gweithredu a chyflawni. Pan fydd LIMS yn barod i'w gyflwyno, rhaid cael staff sy'n fedrus o ran darparu TG ar gyfer ei weithredu, ac amser wedi'i neilltuo i glinigwyr a gwyddonwyr gynnal profion.
- Dangoswyd bod patholeg ddigidol - casglu, rheoli, rhannu a dehongli gwybodaeth patholeg mewn amgylchedd digidol - yn gwella gofal cleifion ac yn cefnogi'r gweithlu patholeg drwy wneud diagnosio a monitro clefydau yn llawer mwy effeithlon. Bydd yn dod â mynediad cyflymach a haws at farn a chyngor arbenigol, gydag achosion yn cael eu hatgyfeirio'n gyflym rhwng rhwydweithiau patholeg neu rhwng sefydliadau.
- Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod patholeg ddigidol yn cael ei rhoi ar waith er mwyn i staff allu gweithio'n fwy effeithlon a hyblyg, a pharatoi'r tir i elwa o'r rôl y gall deallusrwydd artiffisial (AI) ei chwarae mewn perthynas â diagnosis. Rhaid i'r gweithlu, boed yn glinigol neu wyddonol, gael hyfforddiant trylwyr a bod yn arbenigol, a bydd hynny'n cynnwys sicrhau bod y genhedlaeth nesaf yn llythrennog mewn AI. Mae angen cwblhau'r newid i batholeg ddigidol a'i roi ar waith gyda'r seilwaith cywir.
- Er bod Porth Clinigol Cymru, sydd wedi'i ddylunio i roi mynediad i weithwyr iechyd proffesiynol y GIG yng Nghymru at gofnodion iechyd cleifion digidol mewn un lle, yn cael ei gynhyrchu'n ganolog gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru, mae'n cael ei gyflwyno fesul Bwrdd Iechyd unigol sy'n gallu gwneud defnydd cydlynol o ddata cleifion yn anodd ac sy’n golygu nad yw'n bosibl cyflwyno mentrau ledled Cymru i optimeiddio gofal cleifion.

## Ystâd y GIG

- Mae llawer o Ystâd y GIG yng Nghymru, gan gynnwys labordai patholeg, yn heneiddio. Roedd llawer o adeiladau heb eu cynllunio'n wreiddiol i gynnwys offer diagnostig modern a gallant gyflwyno heriau o ran rheoli heintiau a chysylltedd data.
- Disgrifiwyd ystadau patholeg gan adolygiad Grŵp Cynghori'r Gweinidog o GIG Cymru fel rhai 'anaddas i'r diben', gyda llawer o labordai heb ddigon o le ar gyfer offer modern fel sganwyr digidol. Mae hyn i gyd yn cyfrannu at forâl isel, gyda chyfrifiad gweithlu

RCPath[1] yn adrodd nad yw 39% o staff yng Nghymru yn credu bod cyfleusterau adeiladau yn eu galluogi i wneud eu gwaith yn effeithiol.

- Mae'r Coleg yn croesawu'r Strategaeth Ddiagnostig Genedlaethol,[3] a lansiwyd yn 2022 sy'n ceisio moderneiddio seilwaith.
- Rhaid i'r llywodraeth fuddsoddi cyllid cyfalaf a gweithredol wedi'i neilltuo ar frys ar gyfer adnewyddu labordai ac offer patholeg digidol. Rhaid gosod safonau amgylcheddol a gweithredol sylfaenol ar gyfer mannau patholeg e.e. llif aer a lle fesul aelod o staff.

## Integreiddio gwasanaethau'r GIG i sicrhau gofal teg

- Mae'r GIG yng Nghymru yn dameidiog. Mae nifer o fyrddau iechyd yn gweithredu labordai a gwasanaethau patholeg, heb gydlyniant cenedlaethol, gan arwain at arferion anghyson ar draws rhanbarthau ac amrywiadau o ran argaeledd profion ac amseroedd cwblhau. Mae hyn wedi cael ei nodi yn adolygiad Grŵp Cynghori'r Gweinidog o GIG Cymru,[2] a nododd nad oes strategaeth genedlaethol glir i ddatblygu capasiti diagnostig cynaliadwy ledled Cymru, sy'n gadael i fyrddau iechyd unigol weithredu ar eu pen eu hunain, sy'n gwaethygu natur dameidiog gwasanaethau patholeg.
- Dylai'r llywodraeth yng Nghymru gefnogi, lle bo hynny'n briodol, wasanaethau sydd wedi'u hintegreiddio'n rhanbarthol fel y rhai a awgrymwyd yn Ne-orllewin a De-ddwyrain Lloegr. Bydd hyn yn lleihau amrywiadau ac yn arwain at arferion cyson, gan wella tegwch diagnostig a sicrhau canlyniadau gwell i gleifion.

## Cyfeiriadau


1. The Royal College of Pathologists. *Meeting pathology demand: Histopathology workforce census.* Published 2018. Ar gael yn: www.rcpath.org/discover-pathology/news/workforce-census-2025-response-rate-retirements-working-patterns-and-sustainability-of-pathology-services.html
2. *Perfformiad a chynhyrchiant GIG Cymru: adolygiad annibynnol*. Ar gael yn: www.llyw.cymru/perfformiad-chynhyrchiant-gig-cymru-adolygiad-annibynnol

3. *Strategaeth adfer a thrawsnewid diagnosteg yng Nghymru 2023 i 2025*. Ar gael yn: www.llyw.cymru/strategaeth-adfer-thrawsnewid-diagnosteg-yng-nghymru-2023-i-2025